Rhif 42 **Yr Hen Wlad** Rhagfyr 2004

## At Gymry Patagonia

**A ninnau yn ymfalchïo cymaint yn y berthynas agos a hyfryd sydd rhwng Cymru a'r Wladfa, sioc a siom a chywilydd mawr i ni oedd y driniaeth esgymun a gafodd gŵr ifanc o'r Wladfa yn ddiweddar pan gafodd ei anfon adref gan awdurdodau maes awyr Gatwick yn Lloegr. Yr oedd hyn wythnos union cyn i dros dros 200 o Gymry ddychwelyd o'r Wladfa wedi derbyn y croeso mwyaf twymgalon gan bobl Y Wladfa. Yn eu plith yr oedd Alun Pugh, un o Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo ein perthynas ymhellach.**

**Amser cinio ar Dachwedd 9 sef diwrnod dychweliad Luis Austin i'r Wladfa, neilltuwyd y rhan fwyaf o raglen Radio Cymru "Taro'r Post" i drafod y mater. Mynegwyd teimladau cryfion yn erbyn y fath driniaeth ac ymateb un gwrandawr oedd mai gorthrwm y sefydliad Prydeinig arnom fel cenedl oedd yn gyfrifol am yr ymfudo i'r Wladfa yn y lle cyntaf. Dyma'r sefyllfa:**

# Hunllef




*Heddus Gwynedd a Luis Austin*

Fe gyrhaeddodd Luis Austin Gymru o Esquel ym mis Hydref i aros gyda'i gariad, Heddus Gwynedd, a'i theulu, yn Waun-fawr, Caernarfon. Mae Luis yn siarad Cymraeg yn rhugl a'i fwriad oedd treulio hyd at dri mis yma.

Ond wedi iddo gyrraedd maes awyr Gatwick ger Llundain – wedi teithio am bymtheng awr - cafodd ei holi am bum awr gan yr awdurdodau mewnfudo a hynny gan mwyaf mewn Portiwgaleg, iaith nad oedd yn ei deall.

Oherwydd trafferthion a gawsai rhai eraill yn y maes awyr yn y gorffennol cynghorwyd Luis cyn cychwyn iddo beidio â sôn am ei gariad pe holid ef gan yr awdurdodau - nid oedd y ddau wedi dyweddïo pa un bynnag. Ond pan ddechreuwyd ei groesholi, cynhyrfodd Luis ac aeth y swyddogion yn amheus a dechrau meddwl nad ymwelydd ydoedd yn unol â'i fisa ond mai ei fwriad oedd aros ym Mhrydain. Roedd hefyd wedi dod â digon o arian gydag ef er mwyn bod yn annibynnol a gofynnwyd cwestiynau annymunol am hynny.

Yn ystod ei arhosiad byr derbyniodd Luis chwe gwahanol ddyddiad i ddychwelyd adref. Ond ddydd Sadwrn, Tachwedd 6, derbyniodd lythyr yn gorchymyn iddo fynd yn ei ôl i'r Wladfa ddydd Mawrth, Tachwedd 9fed. Bu Hywel Williams, Aelod Seneddol Heddus, gyda chymorth eraill mewn awdurdod, yn gweithio'n ddyfal i ddarbwyllo'r awdurdodau i newid eu meddyliau."Rwy'n wallgof fod hyn wedi digwydd," meddai. "Mae gen i gywilydd o'r croeso rydan ni'n ei roi i ymwelwyr o'r Wladfa a ninnau'n perthyn mor agos."

Ar yr unfed awr ar ddeg penderfynwyd caniatáu wythnos ychwanegol i Luis. Erbyn hynny yr oedd ar ei ffordd i'r maes awyr – taith diwrnod o Waun-fawr - a phenderfynodd ddychwelyd i'r Wladfa rhag creu trafferth i'w gyfeillion. Ond yn halen ar y briw gorfu iddo wynebu artaith arall. Cafodd ei alw i weld yr awdurdodau am 2.30 o'r gloch y prynhawn Mawrth hwnnw, Tachwedd 9, ac er nad oedd y llong awyr yn gadael hyd at 5.45 o'r gloch fe'i cadwyd ar ei ben ei hun yn y maes awyr am dros dair awr ac ni chafodd Heddus a'i rhieni, ffarwelio ag ef.

## Croeso Pobl Waun-fawr

Pan glywodd trigolion Waun-fawr am yr helynt penderfynasant fynd ati yn ddiymdroi i godi arian i hedfan Luis yn ei ôl i Gymru yn 2005 i ddangos iddo beth yw croeso Cymreig. Trefnir yr ymgyrch gan Karen Humphreys, Waun-fawr ac ymysg y gweithgareddau bydd ocsiwn (yn cynnwys cyfraniad gan yr actor enwog Rhys Ifans) a gig ym mis Rhagfyr ac agorwyd cyfrif ym Manc HSBC yng Nghaernarfon i dderbyn cyfraniadau.

Yn ychwanegol at dalu am ei daith codir arian i dalu i gyfreithwyr i sicrhau y bydd statws Luis yn glir cyn iddo gychwyn o Buenos Aires. Mae llefarydd dros y Swyddfa Gartref wedi dweud na fydd y ffaith yr alltudiwyd unrhyw un o angenrheidrwydd yn rhagfarnu cais newydd am fisa. Nid oedd yn medru trafod achos unigol Luis, meddai. Yn y cyfamser, mae Hywel Williams, Aelod Seneddol a Dafydd Wigley, y cyn-Aelod Seneddol, wedi ysgrifennu at yr awdurdodau er mwyn cael sicrwydd na fydd yr amgylchiadau a arweiniodd at alltudio Luis yn rhagfarnu ei gais i ddod yn ôl i Gymru.

**Mae Luis erbyn hyn wedi derbyn dros 250 o lythyrau cefnogaeth dros y we. Bydd Heddus yn mynd i'r Wladfa ddiwedd Rhagfyr a bydd y ddau yn dychwelyd i Gymru yn Chwefror.**

# Cystadleuaeth Yr Hen Wlad

**Ynglŷn â'r gystadleuaeth yn y rhifyn diwethaf, dyma'r enw cyntaf o'r het: Ellis W. Roberts, Trelew a dymunaf wellhad buan iddo.** Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd am eich diddordeb a'ch cefnogaeth. Daliwch ati, cofion cynhesaf atoch i gyd a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda. Golygydd: Marian E. Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU ebost: marianelias@cymru1.net


# Cymru ar goll ar fap Ewrop




Cyhoeddwyd llawlyfr blynyddol Ewrostat yn ddiweddar efo map anarferol o Brydain ar ei glawr. Nid oes sôn am Gymru ynddo a dim ond môr sydd rhwng Iwerddon a Lloegr.

Digwyddodd hyn tua'r un adeg ag y dangosodd awdurdodau maes awyr Gatwick anwybodaeth llwyr o Gymru a'i phobl a'i hiaith a'i hanes a'i thraddodiadau.

## Gwladfa Kyffin



Mae arddangosfa o waith Syr Kyffin Williams ym Mhatagonia i'w gweld yng Nghastell Bodelwyddan rhwng Hydref 9 2004 a Ionawr 9 2005. Mae'r arddangosfa hefyd yn cynnwys peth o eiddo personol yr arlunydd – ei het a'i siaced, ei balet a rhoddion a dderbyniodd pan oedd yn Y Wladfa. Mae'r rhan fwyaf o'r lluniau erbyn hyn yn eiddo i Lyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Llyfrgell sydd yn trefnu'r arddangosfa hon. Cafodd Kyffin Williams Ysgoloriaeth Churchill i fynd i Batagonia yn 1968 lle y bwriadai gofnodi'r bobl a'r wlad. Profodd y daith i Batagonia yn drobwynt iddo. Fe'i hystyriai fel y cam olaf yn ei brentisiaeth i fod yn arlunydd proffesiynol. Erbyn hyn caiff ei gydnabod fel un o arlunwyr mwyaf Prydain a chaiff arian mawr iawn am ei luniau. Cyhoeddwyd llyfr i gyd-fynd â'r arddangosfa.

# Canmlwyddiant






O Chwarel Y Penrhyn, Bethesda, a welir yn y llun, y daeth y llechen i'w gosod ar gapel Bethesda, Dyffryn Camwy, yn ddiweddar. Naddwyd y llun a'r ysgrifen arni ym Mhwllheli, fe'i cyflwynwyd gan Chwarel y Penrhyn ac fe'i hanfonwyd ar ei thaith i'r Wladfa gan Gymdeithas Cymru-Ariannin.

# Eisteddfod Genedlaethol Cymru



Bu Eisteddfod Genedlaethol Cymru mewn trafferthion ariannol ac ar ddiwedd Eisteddfod Casnewydd eleni cychwynnwyd apêl am £300,000.

Ond erbyn hyn mae'r sefyllfa wedi gwella rhwng y swm o tua £130,000 *Eisteddfod Casnewydd 2004* a ddaeth i law a'r ffaith fod Alun Pugh, y Gweinidog Diwylliant, wedi cyhoeddi y byddai'r Eisteddfod Genedlaethol yn derbyn £160,000 ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Credir mai'r rheswm am yr argyfwng arainnol yn y bôn yw yw fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cyfrannu £100,000 yn llai i'r Eisteddfod bob blwyddyn er 1997.

# Jonah Jones



Bu farw'r cerflunydd enwog ac addfwyn, Jonah Jones, ar ddechrau Rhagfyr yn 84 oed a daeth cadarnhad y bydd yn cael ei anrhydeddu'n aelod o Gymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru. Roedd wedi arbenigo ar lythrennu cain ac ymhlith ei waith enwocaf mae cerflun efydd i Clough Williams-Ellis a chofeb Dylan Thomas yn Abaty San Steffan. Ef wnaeth y cerflun gwych o Syr Owen M. Edwards a Syr Ifan ab Owen Edwards yn Llanuwchllyn. Roedd hefyd yn awdur llwyddiannus yn Saesneg. Fe'i magwyd yn Durham yn Lloegr ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yng Nghymru. Roedd yn ymhyfrydu yn ei dras Cymreig ac ymddiddorodd yn Hanes Cymru a'r Mabinogi yn arbennig.

# Cyfieithu gwyrthiol




Mae Adran Cyfryngau Newydd BBC Cymru wedi dyfeisio dull o gyfieithu ar y cyfrifiadur sy'n trosi geiriau yn syth o'r Gymraeg i'r Saesneg heb ddefnyddio geiriadur.

*Vocab* yw enw'r cynllun. Bwydwyd 22,000 o eiriau i'r rhaglen a bydd y geiriau hyn yn cael eu goleuo ar sgrîn y cyfrifiadur. O ddal y cyrchydd (sef yr arwydd a reolir gan y "llygoden") dros unrhyw air sydd wedi ei oleuo, bydd blwch bach yn ymddangos, yn cynnwys cyfieithiad o'r gair i'r Saesneg. Os bydd angen rhagor o wybodaeth am y gair mae modd mynd yn uniongyrchol i safle'r geiriadur ei hun trwy wneud dim byd ond pwyso un botwm.

Yn ôl Grahame Davies, Rheolwr y Cynllun, mae'r BBC yn awyddus i weld gwefannau Cymraeg eraill yn manteisio ar y cynllun hwn. Mae o'r farn y gellid defnyddio'r cynllun hwn ar gyfer gwefannau gwahanol ieithoedd ar hyd a lled y byd. "Fe'i cynlluniwyd fel y gellir ei ddefnyddio i gyfieithu o unrhyw iaith i unrhyw iaith," meddai Mr Davies, "ac rydym ni eisoes yn gweithio ar gronfa ddata Cymraeg/Sbaeneg wedi ei amcanu at y gymuned Gymraeg ym Mhatagonia a bydd yn barod ymhen ychydig fisoedd."

## Ysgol Tir Halen

Tybed a oes disgynyddion i Flora Phillips de Pritchard (gweler tudalen 6) ymhlith plant Ysgol Tir Halen yn y llun hwn a dynnwyd gan Megan Williams sydd yn y llun ar y dde?



# Gwahardd hela llwynogod

O fis Chwefror 2005 ymlaen mae'n debygol y gwaherddir hela llwynogod efo cŵn ym Mhrydain. Mae'n fater mor llosg fel y neilltuwyd 700 awr iddo yn y Senedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond er bod y mesur yn debygol o droi'n ddeddf yn Chwefror mae cefnogwyr hela yng Nghymru a Lloegr wedi dweud eu bod yn barod i dorri'r gyfraith i herio'r gwaharddiad ar hela, hyd yn oed os byddai hynny'n golygu gorfod mynd i garchar. Yn eu plith mae Dai Jones, Llanilar, y darlledwr enwog a fu yn ffilmio yn Y Wladfa. Ef oedd yn agor Ffair Gaeaf Llanelwedd ar ddechrau Rhagfyr ac achosodd gythrwfl trwy annog pobl cefn gwlad i barhau i hela er bod hynny'n golygu torri'r ddeddf.

Mae ffermwyr yn bryderus iawn am y sefyllfa ac maent yn argyhoeddedig y daw llwynogod yn bla yn y dyfodol. Ar raglen radio yn ddiweddar eglurodd ffermwr o Bowys, Canolbarth Cymru fod mab fferm a oedd hefyd yn heliwr wedi gorfod ymaelodi â'r Fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd ond ymhen dwy flynedd digwyddodd yr anhygoel - cafodd ei ryddhau o'r Fyddin i ddychwelyd i'w ardal enedigol i hela'r llwynogod a oedd wedi mynd yn bla am nad oedd neb yno i'w hela.

## Ymwelwyr o Gymru



Ymysg y fintai fawr o Gymru a ymwelodd â'r Wladfa yn ddiweddar yr oedd Megan Williams o Drefor, Caernarfon. Dyma'r gwyliau gorau a gawsai erioed yn ei bywyd.

Ymysg ei chriw hi yr oedd Siân, mam Nia Môn, y ferch ifanc a enillodd gadair Eisteddfod y Wladfa. Gan fod Nia Môn yn absennol cadeiriwyd y fam yn ei lle.

Aeth Megan i chwilio am le gwerthu teisennau i ddathlu'r amgylchiad a chafodd un arbennig iawn mewn Tŷ Te yn y Gaiman gan y wraig yn y llun sy'n siarad Cymraeg glân gloyw a'i chegin yn sgleinio. Beth yw ei henw, tybed? Penderfynodd Siân gludo'r gadair yr holl ffordd i Gymru a rhyfeddai pawb fod y gadair wedi ei gwneud yn y fath fodd fel y gellid ei datgymalu a'i phacio'n daclus.

# Hwyr yn cyrraedd

Pan aeth Pam Short o Loegr ar ei gwyliau i Lanfairpwllgwyngyll, Ynys Môn, ym mis Ebrill 1994 anfonodd gerdyn i'r ffrind Ken Andrews, 196 milltir i ffwrdd.

Cyrhaeddodd y cerdyn ben ei daith ar Hydref 5 2004 – 10 mlynedd yn ddiweddarach. Teithiodd y cerdyn ar gyflymdra o 0.002 milltir yr awr, a honnir bod hynny yn arafach na malwoden. Mae honno yn teithio ar gyflymder o 0.003 milltir yr awr, meddan nhw.

# Cofio Lewis Jones

Ar wahoddiad Cymdeithas Cymru Ariannin traddodwyd darlith gan Dafydd Tudur o Brifysgol Bangor ar Lewis Jones, i nodi canmlwyddiant ei farw. Digwyddodd hyn yng Nghaernarfon, Aberystwyth a Chaerdydd ar Dachwedd 24,25 a 26. Agoriad llygad oedd clywed fod Lewis Jones wedi teithio o'r Wladfa i Buenos Aires 84 o weithiau.

# Llyfrau Cymraeg 2004

Bu eleni yn flwyddyn eithriadol o gynhyrchiol o safbwynt llyfrau Cymraeg da ac mae'r safon yn dal yn uchel iawn at y Nadolig. Cafwyd llyfrau ardderchog ar Y Wladfa: *Y Gaucho o Ffos Halen, Rhyfel Ni* a *John Daniel Evans,* llyfr lluniau Kyffin Williams, i gyd-fynd â'i arddangosfa, sef *Gwladfa Kyffin,* a neilltuwyd rhifyn arbennig o'r cylchgrawn *Llafar Gwlad* i'r Wladfa. A llongyfarchiadau i Gabriel Restucha am y gyfrol o farddoniaeth fuddugol a gyhoeddwyd yn Y Wladfa. Dyma rai o'r llyfrau da eraill a ymddangosodd yn ddiweddar: *Amen Dyn Pren* (geirfa a dywediadau difyr); *Band yr Hendra, Wmba, Wmba,* gan Geraint Jones (6 stori ddigrif mewn iaith goeth); *Cyrn y Diafol* eto gan Geraint Jones (hynt a helynt bandiau pres mewn arddull fywiog); *Hoff Gerddi Nadolig Cymru (*casgliad Bethan Mair*)*; *Ar Dafod Gwerin* (Tegwyn Jones) sef penillion a rhigymau cofiadwy am brofiadau byw a bod; *Cofio Eirug* (teyrngedau cyfeillion, golygwyd gan Emyr Llywelyn Gruffudd*); Y Llaw Wen* (nofel gan Alun Jones mewn iaith goeth); *Rhagom* (nofel gan Angharad Tomos yn seiliedig ar stori wir yn hanes ei theulu sef hen ewythr iddi yn y Rhyfel Byd cyntaf ac ewythr arall yn yr Ail Ryfel Byd); *Zen* (nofel gyffrous gan Geraint V Jones); *Cymeriadau Ynys Môn* gan Emlyn Richards; *Tân ar yr Ynys* (y diweddar R. Tudur Jones – addaswyd gan ei fab, Geraint Tudur – sef hanes Diwygiad 1904 yn Ynys Môn), *Y Dyn 'i hun* (atgofion Hywel Gwynfryn); *Cymru Geoff Charles* (hanner canrif o fywyd Cymru mewn llun a gair. Golygwyd gan Ioan Roberts); *Beti a'i Phobol 3* (sy'n cynnwys sgwrs efo Elvira Austin gynt o Drevelin). Mae rhestr faith o lyfrau da i blant hefyd, yn cynnwys *Trysorfa T. Llew Jones* (detholiad o'i straeon ayb) ac *Idris y Cawr* gan Catherine Aran.

## Taith Cadlanciau Cymru i'r Wlafda ym mis Hydref 2005

Yn dilyn taith lwyddiannus Coleg Llanymddyfri i Batagonia y llynedd, mae Glyn Evans, athro Ffrangeg yn y Coleg ac arweinydd Mudiad y Cadlanciau, yn paratoi i ddychwelyd i'r Wladfa yn mis Hydref y flwyddyn nesaf. Y tro hwn bydd yn arwain grwp o ugain o Gadlanciau hŷn, yn cynnwys bechgyn a merched, a ddewisir o bob rhan o Gymru.

# Owain Glyndŵr



Uchod gwelir lluniau Sian Ifan, Gethin Gruffydd a Richard Evans yn dadorchuddio plac i gofio ymweliad Owain Glyndŵr â Chaernarfon dros 600 mlynedd yn ôl – yn 1401, 1403 a 1404.

Methiant fu ymgais Owain Glyndwr i gipio Castell Caernarfon oddi wrth y Saeson ar yr adegau hynny ond eleni, yn 2004, cafodd ei ddilynwyr ganiatâd i chwifio baner Owain Glyndŵr yn y castell ei hun ac i osod plac ar ben Twtil y tu allan. Trefnwyd digwyddiadau yn y dref i ddathlu'r achlysur.


# Gwella trafnidiaeth



Mae cynllun i wario £8 biliwn ar wella ffyrdd yng Nghymru dros y 15 mlynedd nesaf, yn cynnwys gwasanaeth awyr a fydd yn cychwyn yn 2006 o Abertawe a Chaerdydd i faes awyr yr Awyrlu yn Y Fali, Ynys Môn.

# Agor Canolfan y Milflwyddiant

Ar ôl 18 mlynedd o baratoi mae Canolfan newydd i'r celfyddydau wedi ei hagor yng Nghaerdydd a fydd yn medru cystadlu â chanolfannau mawr y byd. Mae prif theatr yr adeilad yn fwy nag unrhyw le yn Broadway, Efrog Newydd. Costiodd £106 miliwn a bydd rhaid gwerthu 350,000 o docynnau y flwyddyn i'r Ganolfan dalu ei ffordd. Bydd hefyd yn bencadlys i saith o wahanol gwmnïau, yn cynnwys Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru ac Urdd Gobaith Cymru.






*Y brif theatr*

Ar y nos Wener gyntaf cafwyd problemau gyda'r llen diogelwch ond yn ystod yr oedi o 25 munud fe ddechreuodd y gynulleidfa ganu emynau Cymraeg.

# Adfywio Hen Ardd

Mae gardd 80 acer wedi eu hadfer i'w bri cyn 1914 yng Nghernyw, Lloegr ac mae'n gyrchfan i filoedd o ymwelwyr erbyn hyn. Cafwyd darlith ar y pwnc yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor, yn ddiweddar, a dyma un o'r lluniau a ddangoswyd. Mwsogl yw'r wyneb a gwellt yw'r gwallt.



# Brenin y Wasg Gymraeg

Bu farw John Roberts Williams yn 90 oed ar Hydref 27. Ef oedd Brenin y Wasg Gymraeg a hanai o'r un cyff ag Irma Hughes de Jones a Gwyneth Vaughan.



Hyd at ychydig wythnosau yn ôl darlledai ei raglen radio wythnosol ar bynciau'r dydd, *Dros fy Sbectol*, a hynny'n ddi-dor am bron i 30 mlynedd wedi iddo ymddeol o'i waith fel Pennaeth y BBC ym Mangor.

Daeth yn Olygydd *Y Cymro* pan oedd yn ifanc iawn. Cynyddodd y cylchrediad i 26,000 yn ei gyfnod ef (ond sydd erbyn hyn tua 4,000).

Cafodd ddylanwad mawr ar genedlaethau o newyddiadurwyr a gohebwyr, yn eu mysg Ioan Mai a Dyfed Evans (a ymwelodd â'r Wladfa ym mis Hydref eleni ac a gynhyrchodd bapur arbennig yn *Y Ffynnon* am brofiadau'r Cwmni Drama y cyd-deithiai â hwy), ac ar ohebwyr a chynhyrchwyr teledu fel Owen Edwards, Hywel Gwynfryn, Wil Aaron ac Alun Rhys.

Cynhyrchodd raglenni teledu a ffilmiau cofiadwy a phan benodwyd ef yn bennaeth y BBC ym Mangor prin iawn oedd y rhaglenni byw oddi yno. Erbyn iddo ymddeol yr oedd rhaglenni poblogaidd, graenus, yn cael eu cynhyrchu'n fyw o Fangor – ond yn anffodus ni ddaeth neb i'w esgidiau ac mae llawer o'r rhaglenni a ddarlledir o Fangor erbyn heddiw o safon isel, annheilwng ac anurddasol. Fe'i galwyd wedyn, er ei fod wedi ymddeol, i roi arweiniad i newyddiadurwyr ifainc yn Adran Newyddion y BBC yng Nghaerdydd am gyfnod. Yn ogystal â meddu ar y ddawn brin i wneud sylwadau craff ar bynciau'r dydd meddai ar gof eithriadol a meddwl chwim a ffraeth. Nid ysgrifennai nemor ddim nodiadau gan y gallai ddibynnu'n hollol ar ei gof a gallai ysgrifennu'n gyflym dan bwysau. Yr oedd yn eang iawn ei ddiwylliant, ac yn awdurdod ar emynau Ann Griffiths.

Collodd ei wraig pan oedd hi'n 48 oed ac yntau newydd ddechrau gweithio i'r BBC. Yn 1998 collodd ei ferch, Ffion, o'r un afiechyd. I gloi ei sgwrs radio ddirdynnol yr wythnos honno, dyma a ddywedodd: *Dros yr wythnos a'r misoedd diwethaf yma fe barhaodd y cof a'r galar am Diana. Ond Hon oedd fy nhywysoges i.*

---

**Hwy a gawsant y dyn bach.....**

Ni wyddom am ddim rhyfeddach – Crëwr
Yn crïo mewn cadach,
Yn faban heb ei wannach,
Duw yn y byd fel Dyn Bach.

J. Eirian Davies

**Rhai o feirniaid Eisteddfod Y Wladfa, Hydref 2004**



*O'r chwith: Nanci Jones, Rawson ac Elinor Bennett.*
*Llun: Megan Williams*

# Yng Nghlust y Teleffôn

• Codwyd tua £2,750 tuag at addysg Gymraeg yn Y Wladfa yn y Glamorgan Arms, Pont-lliw ddiwedd Awst. Aelodau'r pwyllgor oedd: Hazel Charles Evans, Elen Davies, Megan Bevan, Ann-Marie a Tito Lewis, Elvira Austin Moseley, Wendy Tardioli (tafarn Glamorgan Arms) a Menna George.

• codwyd y swm o £211 ym mis Hydref tuag at apêl Ysgol Feithrin, Treble, yn y New Dock Stars ym mis Hydref. Trefnwyd y noson gan Ann-Marie a Tito Lewis.

•codwyd £718 yn Nhŷ Tawe, Abertawe, ym mis Medi tuag at addysg feithrin yn Y Wladfa. Trefnwyd y noson gan Eiry Miles.

***•Llongyfarchiadau*** i **Tân Bach**, y parti dawnsio gwerin o Comodoro fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Ieuenctid yn y Gaiman ym mis Medi, a rhannu'r ail wobr efo parti o Ysgol Gerdd y Gaiman yn "Y Ddafad Gorniog" a rhannu'r wobr gyntaf efo parti arall o'r Gaiman yn "Pont Cleddau".

***•Llongyfarchiadau*** i Laura Irma Jones, Esyllt Nest Roberts a Rebeca Henry ar eu gwaith da yn cynhyrchu'r *Drafod.*

***Colledion***

•Ar Dachwedd 19 bu farw'r fonesig Flora Phillips de Pritchard yn 91 oed. Roedd hi yn perthyn i deulu "Phillips Brazil" ac yn byw ar ffarm eang yn Nhir Halen ac yn arfer anfon newyddion Tir Halen i'r papur newydd yn Nhrelew. Roedd yn arferiad ganddi hefyd anfon calendrau bychan bob blwyddyn efo'i chyfarchion ac adnod bwrpasol.Pan oedd plentyn yn cael ei eni yn yr ardal roedd hi wastad yn rhoi "babero" (bib) yn bresant iddo.Ers tua 5 neu 6 blynedd roedd hi mewn cartref henoed yn Nhrelew. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Tir Halen. Roedd yn wyres i Thomas Bembow Phillips a aeth i geisio gwladychu yng nghyffiniau Pelotas, Brazil, ychydig flynyddoedd cyn i fintai'r Mimosa gyrraedd Patagonia. Aeth yr ymdrech yn fethiant ac ymhen amser aeth Thomas Bembow a'i deulu i'r Wladfa, ac ymsefydlodd Randall, un o'r meibion, yn Tir Halen gyda'i deulu - Flora yn ferch iddo. Mae'n debyg mai "cadw stor" oedd Thomas Bembow ym Manceinion ac yr oedd un neu ddau o'i gefndryd yn bregethwyr yng Nghymru.

•Ar Dachwedd 21ain bu farw Elizabeth Jones de Jones yn 85 oed yn Nhrelew. Roedd hi wedi byw ar fferm ger y Gaiman a hi oedd yr olaf o deulu "Pontyberem". Bu ei hunig fab farw beth amser yn ôl. Bu'r angladd ym mynwent y Gaiman. Jorge Leccese oedd yn gofalu am y ddau wasanaeth angladdol.

***•Dathliadau i gofio canmlwyddiant marwolaeth Lewis Jones:***

***Tachwedd 26,*** "acto" (a) yn ysgol 21, Lewis Jones, wedi ei drefnu gan yr Ysgol a Chymdeithas Dewi Sant.
(b) yng Nghapel Berwyn yn Rawson wedi ei drefnu gan yr awdurdodau lleol (c) ym mynwent Moriah a chwrdd yn y capel yn dilyn.

***Tachwedd 27,*** cychwyn cynllun gan awdurdodau Rawson i ddiogelu Plas Hedd, cartref Lewis Jones.

•Deallwn fod croeso arbennig i Hazel Charles Evans sydd wedi dod draw i Esquel ar fyr rybudd i gymryd lle Jayne Rees yr athrawes Gymraeg.

## Cystadleuaeth

### Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Eryri a'r Cyffiniau, 2005

i rai sydd wedi byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes ac yn dal i fyw yn Yr Ariannin:

**Dygymod â'r elfennau yn Y Wladfa**

| | |
|---|---|
| Gwobr: | £200 (Gwobr Goffa Shân Emlyn) |
| Beirniad: | Glyn Evans |
| Dyddiad cau: | Ebrill 1 2005 |

• Gellir sôn am unrhyw beth fel y llifogydd, y sychter, y gwynt, tywydd anwadal, ac yn y blaen, a dangos fel y mae hynny wedi effeithio ar fywyd y Wladfa mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

• Gellir anfon y deunydd at Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 3HE

## ???

Chwiliwch am yr atebion cywir yn y papur hwn. Os anfonwch at y Golygydd erbyn Ionawr 31, 2005 (gan roi eich enw) rhoir eich ymgais mewn het a'r ymgais gywir gyntaf a dynnir ohoni gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o'r *Hen Wlad.*

1. Enwch y dyn sydd yn trefnu'r daith.
2. Beth sydd yn digwydd yn y castell?
3. Pwy a ysgrifennodd nofel gyffrous?
4. Bu Dafydd mewn tri lle.
5. Pwy oedd y newyddiadurwr a ddaeth i'r Wladfa yn Hydref 2004?
6. Enillodd ysgoloriaeth.
7. Pwy sy'n trefnu ocsiwn?
8. Pwy oedd y cerflunydd enwog?
9. Ym mhle yng Nghymru y bu Eisteddfod yn 2004.
10. Enwch sir yng Nghanolbarth Cymru.

---

**Nadolig 2004**

A nos hen yn serennu heno'n wawr
Ar gariad mewn beudy,
Awn o rwysg yr arfog cry'
O wae oes am ffordd Iesu.

*Ithel Rowlands*